EIDCymru


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofrestru gyda EIDCymru

Drwy gofrestru gyda EIDCymru byddwch yn medru:
**Cael mynediad i'ch symudiadau defaid a geifr; Derbyn symudiadau ymlaen o farchnadoedd a gan ffermwyr eraill; Cwblhau eich Stocrestr Flynyddol; Adrodd am eich symudiadau'n electroneg.**

Cyn defnyddio EIDCymru, bydd angen cofrestru am gyfrif. Bydd angen yr wybodaeth ganlynol arnoch er mwyn eich cynorthwyo i gwblhau'r broses gofrestru: **Eich cyfeiriad e-bost (Dolen yn ddilys am 72 awr); Rhif eich Prif Ddaliad (CPH); Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN) RPW; Rhif diadell chwe digid.**

**1** I gofrestru, agorwch wefan EIDCymru **www.eidcymru.org**, dewiswch eich iaith, yna pwyso'r ddolen **'Creu eich cyfrif'**.





**2** Byddwch yn creu enw defnyddiwr unigryw i'r cyfrif. Dewisiwch eich enw defnyddiwr yn ofalus gan y caiff ei weld gan ddefnyddwyr eraill. Mae'n bosib y bydd yr enw defnyddiwr o'ch dewis wedi'i gymryd yn barod (e.e. Jones neu Tygwyn) felly gwnewch yn siŵr ei fod yn hollol unigryw.

Bydd angen cyfeiriad e-bost dilys. Dim ond ar gyfer **un cyfrif EIDCymru** y bydd yr e-bost hwn yn medru cael ei ddefnyddio.

Yna bydd angen creu cyfrinair sy'n cydymffurfio â'r canlynol

- Yn cynnwys o leiaf 12 nod ac un yr un o'r canlynol:
  - Prif lythyren (A-Z)
  - Llythyren fach (a-z)
  - Rhif (0-9)
  - Nod arbennig (!*£$%^&,.?)


Pwyswch **'Cadw a pharhau'** i symud 'mlaen.



**3** Byddwch yn cael eich cyfeirio at dudalen i ychwanegu eich **Prif ddaliad (CPH)** yn y fformat **CC/PPP/HHHH**.

Ychwanegwch gyfeiriad eich fferm. Nodwch, lle mae'r Cyfeiriad Cyswllt yn wahanol i'r Cyfeiriad Fferm, gallwch dicio'r blwch a pharhau i dudalen ar wahân i nodi Cyfeiriad Cyswllt gwahanol.

Fel arall, ar ôl gorffen, pwyswch **'Cadw a pharhau'**.




**4** Bydd y dudalen nesaf yn gofyn am fwy o fanylion. Yma bydd angen ichi nodi eich **rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN)**. Bydd eich CRN yn cychwyn gydag **A yna rhif 7 digid**.

Bydd angen i CPH eich Prif Ddaliad a'r CRN gyfateb i'r un cyfrif ar RPW.

Os nad ydych yn gwybod eich CRN, mewn gofnodwch i'ch cyfrif RPW Ar-lein neu cysylltwch gyda RPW ar **0300 062 5004**. Pwyswch **'Cadw a pharhau'**.




**5** Bydd y dudalen nesaf yn gofyn am rif **chwe digid eich Diadell** sydd wedi ei ddarparu gan APHA. Bydd eich rhif diadell yn cychwyn gyda **7** yna **rhif 5 digid** a rhaid iddo fod yn brif rif eich diadell sy'n cyfateb i'ch prif CPH.

Pwyswch **'Cadw a pharhau'**, yna gwirio fod y manylion i gyd yn gywir cyn pwyso **'Creu eich cyfrif EID Cymru'** ar y dudalen Grynodeb.




Bydd neges yn cael ei hanfon i'ch cyfeiriad e-bost a bydd angen i chi bwyso ar y ddolen yn yr e-bost i gadarnhau eich cyfrif ac i orffen y broses gofrestru.

Rydych nawr yn barod i ddefnyddio eich cyfrif EIDCymru.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, defnyddiwch y botwm **'Cysylltwch â ni'** ar y wefan, anfonwch e-bost at **cymorth@eidcymru.org** neu ffoniwch **01970 636959**.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG52676